**CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER***

**WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:*** **23.03.18**

## GWYLIAU HAPUS – *HAPPY HOLIDAY*

Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y tymor hwn sy'n dod i ben heddiw. Dymunaf wyliau hapus a dedwydd i bob un ohonoch ac edrychir ymlaen at weld pawb yn ôl ar gyfer tymor olaf y flwyddyn addysgol gyfredol **ddydd Llun, Ebrill 9fed.**

*I take this opportunity to thank you all for your support during the current term which comes to an end today. I wish everyone a happy and pleasant holiday, and we shall look forward to seeing everyone back for the first day of the last term of the current academic year on* ***Monday, April 9th.***

## CYSTADLEUAETH PÊL DROED ELWYN OWEN *FOOTBALL COMPETITION.*

Bu tîm o ddisgyblion iau Cyfnod Allweddol 2 yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth bêl droed Cwpan Elwyn Owen ddydd Gwener diwethaf. Gwnaeth y tîm eu rhan yn arbennig o dda gan lwyddo i ennill dwy gêm, colli un a chael dwy gêm gyfartal. Llongyfarchiadau i aelodau'r tîm am wneud eu rhan mor deilwng yn enw Ysgol Glanrafon.

*A team of younger Key Stage 2 pupils participated in the Elwyn Owen Cup competition last Friday. They did so with much enthusiasm and succeeded in winning two games, losing one and having two draw games. Congratulations to the team members for doing so well on behalf of Ysgol Glanrafon.*

## GWEITHDAI TENIS – *TENNIS WORKSHOPS.*

Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 3 sesiynau o hyfforddiant tenis fore Mawrth.  Diolchir i Glwb Tenis Yr Wyddgrug am eu cefnogaeth i'r ysgol bob amser.

*Year 3 pupils very much enjoyed tennis training sessions on Tuesday morning. Mold Tennis Club is thanked for their support to Ysgol Glanrafon at all times.*

## GLAN LLYN

Treuliodd disgyblion Blwyddyn 4 dridiau hynod ddifyr a gweithgar yng ngwersyll yr Urdd Glan llyn o ddydd Llun i ddydd Mercher yr wythnos hon yng nghwmni disgyblion o ysgolion Cymraeg eraill Sir y Fflint. Daeth pawb adre'n ddiogel a blinedig bnawn ddoe ar ôl cael amser i'w gofio.

*Year 4 pupils spent three interesting and busy days at the Urdd camp in Glan Llyn from Monday to Wednesday of this week in the company of pupils from the other Flintshire Welsh schools. Everyone came home safely having had a memorable time, yesterday afternoon.*

## **PROSIECT CELFYDDYDOL – *ARTS PROJECT.***

Daeth y prosiect arbennig hwn yn seiliedig ar yr ardal leol, a wnaethpwyd gyda Manon Elis, i ben yr wythnos hon, a chafodd rhieni disgyblion Blwyddyn 2 gyfle i ddod i mewn i weld y gwaith a wnaethpwyd gan y plant ac i wylio eu cyflwyniad bnawn ddoe. Mwynhaodd pawb y weithgaredd yn fawr a dotiwyd at safon y gwaith a gynhyrchwyd yn ystod y deg wythnos hon ers mis Ionawr. Diolchir i Manon Elis am ei holl waith ac i Angharad Llwyd hefyd am ddod i gynnal dwy sesiwn gyda'r disgyblion hyn. Bu'r cyfan yn sicr yn brofiad amheuthun i ddisgyblion Blwyddyn 2, a bydd prosiect arall yn digwydd eto yn ystod y flwyddyn nesaf.

*This project based on the local area carried out with Manon Elis, came to an end this week, and Year 2 parents had an opportunity to come in to see the work and to appreciate the presentation given by the pupils yesterday afternoon. Everyone very much enjoyed the activity and appreciated the work produced during the ten weeks since January. Manon Elis is thanked most sincerely for all her hard work and also Angharad Lwyd who led two sessions with the pupils. The experience was indeed a wonderful one for the Year 2 pupils, and another project will take place in school again next year.*

## **CYMERIAD O LYFR – *CHARACTER FROM A BOOK.***

Edrychodd y disgyblion yn wych yn eu gwisgoedd yn portreadu eu hoff gymeriad o lyfr heddiw. Cafwyd amrywiaeth o gymeriadau oedd yn dangos cryn ôl meddwl a dychymyg ar eu hail greu. Mwynhaodd y disgyblion y weithgaredd darllen noddedig a diolchir i bawb am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth i'r ymgyrch arbennig hon.

*The pupils looked wonderful portraying their favourite characters from a book today. A variety of characters were displayed which showed a great deal of imagination and thought in their re-creation. The pupils are enjoying the sponsored read, and many thanks to everyone for their contributions and support to this special appeal.*

## **YMGYRCH CYWION Y PASG – *EASTER CHICKS APPEAL***

Llwyddwyd i godi £330 o werthiant y cywion Pasg eto eleni, gyda'r elw yn cael ei gyflwyno i Nyrsys McMillan. Diolch, fel bob amser, am eich cefnogaeth hael.

*We succeeded in raising £330 from the sale of the Easter chicks again this year, with the money being contributed to the McMillan Nurses appeal. Many thanks, as always, for your generous support.*

## **WYTHNOS EWROPEAIDD – *EUROPEAN WEEK.***

Chwi gofiwch i mi eich hysbysu y byddwn yn cynnal Wythnos Ewropeaidd eleni , a bydd honno'n digwydd o **ddydd Llun, Ebrill 16eg i ddydd Gwener, Ebrill 20fed.** Bydd pob dosbarth yn astudio gwlad Ewropeaidd yn ystod yr wythnos ac yn gwneud gwaith yn

seiliedig ar y wlad honno, a bydd cyfle i'r disgyblion wisgo dillad i gynrychioli'r wlad ar ddydd Gwener, Ebrill 20fed. Y gwledydd a astudir gan bob dosbarth yw fel a ganlyn:

*You will re-call that I informed you that we will be celebrating an European Week this year, which will take place from* ***Monday, April 16th to Friday, April 20th.*** *Each class will be studying an European country during the week and will be doing work based on that country, and the pupils will have an opportunity to dress up as someone from their class' chosen country on Friday, April 20th. The countries to be studied will be as follows:*

Uned y Blynyddoedd Cynnar – *Early Years Unit* – Ffrainc – *France.*

Dosbarth C. Morris/I Davies *Class* - Yr Eidal – *Italy.*

Dosbarth L.L.Davies' *Class* – Sbaen – *Spain.*

Dosbarth E. Roberts' *Class* – Gwlad yr Iâ – *Iceland.*

Dosbarth G. Gatrell's *Class* – Yr Iseldiroedd – *Holland.*

Dosbarth L. Fernandes' *Class* – Portiwgal – *Portugal.*

Dosbarth G. Jones' *Class* – Yr Almaen – *Germany.*

Dosbarth S. Coulman's *Class* – Yr Alban – *Scotland.*

Dosbarth G.Williams/E. Price's *Class* – Groeg – *Greece.*

Dosbarth L.Hogg's *Class* – Sweden.

Dosbarth RhJ's *Class* – Gwlad Belg – *Belgium.*

## PRESENOLDEB LLAWN – *FULL ATTENDANCE*

Er gwybodaeth i chi, llwyddodd 115 o ddisgyblion yr ysgol i fod yn bresennol yn yr ysgol bob un diwrnod yn ystod y tymor hwn ers 9fed o Ionawr hyd at heddiw. Llongyfarchiadau calonnog iddynt i gyd. Roedd y cyfanswm wedi'i dosbarthu fel hyn:

*For your information, 115 of the school's pupils obtained full attendance during this term since the 9th. of January up to today. Many congratulations to them all. A breakdown of the totals were as follows*

| | | |
|---|---|---|
| Derbyn/*Reception* – 22 | Blwyddyn/*Year* 1 – 16 | Blwyddyn/*Year* 2 – 17 |
| Blwyddyn/*Year* 3 – 17 | Blwydddyn/*Year* 4 – 17 | Blwyddyn/*Year* 5 – 6 |
| Blwyddyn/*Year 6* - 20 | | |

**PASG HAPUS I CHI I GYD!! – *A HAPPY EASTER TO YOU ALL!!***